



Gwasanaeth Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Uchelgais a Rennir



Ein gweledigaeth am addysg:

Mae Torfaen, fel Cyngor, yn credu'n
angerddol yn nyfodol ein plant a'n pobl
ifanc ac yn ymrwymedig i'w cefnogi nhw
trwy ganolbwyntio'n ddiwyro ar godi
safonau cyrhaeddiad, iechyd a lles i bawb
mewn amgylchedd diogel, cynhwysol a
gofalgar

Cefnogi a herio pob lleoliad addysg trwy
bartneriaethau cryf i roi profiadau dysgu o
ansawdd uchel i alluogi pob dysgwr i fod y
gorau gallan nhw

Ysbrydoli pob plentyn a pherson ifanc, waeth
beth yw eu gallu, i ddysgu trwy gydol eu
bywydau ac ehangu eu profiadau; datblygu
eu hiaith, gwybodaeth a sgiliau gan
gynnwys technoleg i'w galluogi i fod yn
ddinasyddion hyderus, uchelgeisiol sy'n
gallu chwarae rhan lawn ym mywyd y
fwrdeistref, Cymru a'r byd



Effaith y pandemig:

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar fywydau pawb. I blant a phobl ifanc Torfaen, mae'r ymyrraeth â dysgu o ganlyniad i'r cyfnod clo cyntaf, y symudiad at ddysgu cyfunol a'r mynd a dod parhaus o hunan-ynysu a chyfnodau clo wedyn wedi effeithio'n fawr eu hiechyd meddwl a'u cynnydd wrth ddysgu. Ar gyfer dysgwyr hŷn yn eistedd arholiadau cyhoeddus, mae'r cyfan wedi golygu pryder ychwanegol sylweddol wrth i arholiadau gael eu canslo ac i amheuon godi dros lwybrau at addysg bellach ac uwch a gwaith.

Fel Awdurdod Lleol, mae Torfaen yn deall yr holl broblemau ychwanegol yma'n iawn. Rydym wedi gweithio'n agos ag Aelodau'r Cyngor, ysgolion a dysgwyr ar draws y fwrdeistref i gyflwyno mesurau i fynd i'r afael â'r bylchau yng ngwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr a gwella'n cefnogaeth i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl i'n plant a dysgwyr ifanc.

O ganlyniad, yn ogystal â'n gweledigaeth graidd ar gyfer addysg, mae Torfaen wedi cyflwyno dwy flaenoriaeth bellach yn y tymor byr a chanolig i fynd i'r afael yn benodol â'r problemau yma a lleddfu'r effaith negyddol ar les a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc y fwrdeistref.

Gweithio'n ddiflino gydag ysgolion, darparwyr allanol a Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â'r bylchau yn sgiliau a gwybodaeth dysgwyr trwy ddarparu rhaglenni adferiad ac adnoddau dysgu ychwanegol.

Cofleidio a gwreiddio, fel gwasanaeth Cyngor, ffyrdd newydd buddiol o weithio sydd wedi codi o'r pandemig i wella ansawdd ac effaith cefnogaeth y gwasanaeth i ysgolion a darpariaeth o fewn ysgolion.



Cyd-destun strategol:

Cynllun Corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2016-21 yw gweledigaeth trofwaol y Cyngor sy'n gosod gerbron ei flaenoriaethau yn eglur dros gyfnod o bum mlynedd. Y drydedd flaenoriaeth yn y cynllun (CC3) yw **“codi cyrhaeddiad addysgol”**. Mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys Amcanion Lles hefyd, gan gynnwys **‘rhoi i blant a phobl ifanc y dechrau gorau mewn bywyd’**.



Cynllun Corfforaethol



Dogfen Uchelgais a Rennir



Cynllun Gwasanaeth Addysg



Cynllun Busnes y GCA, gan gynnwys Atodiad Awdurdod Lleol Torfaen

Yn sail i'r Cynllun Corfforaethol mae yna amrywiaeth eang o gynlluniau cefnogol sy'n rhoi manylion y gefnogaeth benodol a'r gweithgareddau gwella y mae ein hysgolion, y Gwasanaeth Addysg a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (GCA) yn ymgymryd â nhw.



Gweithio fel partneriaeth gref

Er mwyn cyflawni'n gweledigaeth, mae'r Cyngor a'r Gwasanaeth Addysg yn gweithio'n ddiwro i ymwreiddio diwylliant cryf o gydweithio ar draws holl wasanaethau'r Cyngor, darparwyr allanol, ysgolion a'u cymunedau, gan gynnwys dysgwyr a rhieni/gofalwyr fel ei gilydd.


Wrth graidd y cydweithio yma mae yna ddealltwriaeth a chydabyddiaeth fod rhaid i holl wasanaethau'r Cyngor a darparwyr a gomisiynwyd gyflenwi cefnogaeth effeithiol iawn i'n hysgolion. Bydd monitro'n galluogi Swyddogion ac Aelodau i ddeall pa mor dda mae ein hysgolion yn perfformio ac yn caniatáu ymyrraeth gynnar a chefnogaeth briodol. Bydd monitro'n digwydd gyda phedwar maes o dan sylw:

1. Gweledigaeth ac Arweinyddiaeth
2. Cwricwlwm
3. Dysgu ac addysgu
4. Llesiant



Y Gwasanaeth fel Sefydliad Dysgu

Mae ein gwaith ar y cyd â Phrifysgol Bangor wedi arwain at fod y Gwasanaeth Addysg yn cyflwyno newidiadau buddiol wedi'u cyfunioni ag egwyddorion OECD o gylch sefydliadau dysgu llwyddiannus. Mae'n adlewyrchu hefyd yr arfer gorau yn nifer o ysgolion mwyaf effeithiol Torfaen.



Bwriad strategol y datblygiad hwn yw:

Gwella gallu'r Gwasanaeth i gefnogi ei ysgolion i gyflenwi'r newidiadau allweddol i ddarpariaeth addysg yn Nhorfaen fel amlinellwyd yn Adroddiad Donaldson a dogfen Diwygio Cwricwlwm Cymru.

Datblygu systemau ac arferion ar draws y Gwasanaeth sy'n gwella cynhyrchiant ac effeithiolrwydd staff i gefnogi ysgolion yn llwyddiannus wrth sicrhau'r cynnydd angenrheidiol ochr yn ochr â'r amgylchiadau sydd mewn ysgolion da.

Sefydlu cyd-ddealltwriaeth ac arferion ar y cyd wedi'u cyfunioni â'n rhanddeiliaid sy'n cyflymu'r cynnydd a wnaed gan ysgolion Torfaen, yn enwedig yn y sector uwchradd.



Cydnabyddiaeth

Hoffem gydnabod cyfraniadau gwerthfawr y rhanddeiliaid canlynol tuag at ddatblygiad y weledigaeth hon:

Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Plant a Phobl Ifanc y Cyngor

Aelodau Grŵp Strategol Penaethiaid Torfaen

Fforwm Pobl Ifanc Torfaen

Rheolwyr Gwasanaeth y Cyngor

Aelodau cyngor Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Alban

Aelodau cyngor Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Ponthir

Disgyblion Ysgol Arbennig Crownbridge